

Beirniadaeth o 'Fy Hoff Le'
Rhyddiaith Bl 5 a 6 i ddysgwyr Rhif 393
Beirniad – Teresa Wynne

Daeth 37 ymgais i law. Diolch i'r cystadleuwyr am eu gwaith ac i'r athrawon am eu paratoi a'u hysbrydoli i ysgrifennu. Pleser oedd darllen gwaith pob un o'r ymgeiswyr.

Y testun oedd 'Fy Hoff Le'.

Tebyg o ran cynnwys oedd y rhan fwy, sef cyfeirio at le oedd yn arbennig iddyn nhw a nodi'r rhesymau pam. Roedd y mwyafrif yn defnyddio geirfa ac ymadroddion addas, yn amrywio patrymau ac yn cynhyrchu brawddegau cywir sylfaenol. Dewisodd sawl un ddisgrifio Caerdydd fel eu hoff le ond hefyd cafwyd ddisgrifiadau o Ganolfannau Chwaraeon, coedwigoedd, traethau, dinasoedd, cyrchfannau trofannol a gwledydd tramor .

Cafwyd enghreifftiau da o ysgrifennu ymestynnol yng ngwaith y goreuon. Roedd rhai'n defnyddio amrywiaeth o gystrawenau, ansoddeiriau a chymhariaethau yn eu gwaith. Hoffais yn fawr y defnydd o'r synhwyrâu i greu disgrifiadau oedd yn cyfoethogi'r gwaith.

Tasg anodd oedd penderfynu o blith y rhai a ddaeth i'r brig. O'r naw ymgais gorau rwyf am enwi Daffy Duck 393/110, Pêl Rygbi 393/4, Daniel James 393/31, Bran 393/34, Minnie Winner 393/a a Shrek 393/25 am eu disgrifiadau cofiadwy a thrawiadol o'u hoff leoedd.

Streic Stormus 393/29 sy'n cael y trydydd safle am roi disgrifiad lliwgar a ffraeth o Ynys Cyprus. Mae'r ail safle yn mynd i Diva Diamond 393/26 am roi disgrifiad lliwgar o Draeth San Ffraid, Sir Benfro mewn arddull fywiog.

Mae'r safle cyntaf yn mynd i Minnie Mouse 393/28 am greu darlun byw o Gaerdydd trwy ysgrifennu ymestynnol gan ddefnyddio iaith yn gelfydd i greu effethiau.